Clecs Casnewydd

Rhifyn rhif 11

Tymor yr Hydref 2016

Roedd ein cyngherddau Nadolig eleni yn llawn canu gwych a gwisgoedd lliwgar. Plant Meithrin a Derbyn dechreuodd yr wythnos o sioeau. Roedd rhaid iddynt wisgo Siôn Corn achos doedd ganddo fe ddim dillad!Aeth Blynyddoedd 1 a 2 â ni i Weithdŷ Siôn Corn ble roedd llawer o dywysogeau a robotiaid, milwyr a chorrachod prysur! Dechreuodd Cyfnod Allweddol Dau gyda Blwyddyn 3 yn actio stori'r geni yna'r Dyn eira gan Flwyddyn 4. Clywson ni am stori'r Carol Nadolig gan Flwyddyn 5, a Nadolig plentyn yng Nghymru gan Flwyddyn 6. Cawson ni hyd yn oed ymweliad gan Honey G! Yn dydyn ni'n lwcus! Diolch am baratoi gwisgoedd ffantastig i'r plant.Rydyn ni i gyd yn barod am hwyl yr Wŷl erbyn hyn!

Dahl Day

Roedd yr ysgol yn llawn Willy Wonka's a gwrachod nôl ym mis Medi i ddathlu penblwydd Roald Dahl yn 100 mlwydd oed. Cafodd pob blwyddyn cyfleoedd i wneud gwahanol gweithgareddau megis creu daliwr breuddwydion a dylunio losin eu hun.

Wythnos Ein Cymuned

Yn ystod wythnos Ein Cymuned Fe ddaeth Mamgu's a thadcu's Plant blwyddyn 2 i fewn i'r dosbarthiadau i weld nhw wrth eu gwaith a chafodd pob dosbarth y cyfle i wneud campau oedd wedi eu haddasu er mwyn dangos empathi tuag at bobl ag anabledd.

Plant Mewn Angen!

Eleni roedd yr ysgol yn llawn smotiau yn ogystal a'r clustiau Pudsey arferol. Llwyddon ni i gasglu £295.82 . Diolch yn fawr am eich cymorth.

Ffair Nadolig

Am wledd i'r synhwyrau! Daeth Siôn Corn yr holl ffordd o Begwn y Gogledd, roedd y côr yn cynhyrchu seiniau Nadoligaidd, roedd nifer o weithgareddau a stondinau a llawer o losin, bwyd a diodydd! Erbyn y diwedd codwyd dros £1906!!! Diolch i'r CRhA ac i bawb a ddaeth i gefnogi.

Noson Tân Gwyllt

Cafodd y dosbarth Meithrin wythnos greadigol iawn wrth ddysgu am noson tân gwyllt. Gwnaethon ni ffon wreichion, creu rocedi ar y bwrdd gwyn, dysgu am reolau, peintio coelcerth gyda'n dwylo a gwylio sioe noson tân gwyllt gyda'n gilydd. Roedden ni'n dwlu ar y cŵn poeth!!

Maip Meddyliol!

Derbyn

Roedd y dosbarth Derbyn wedi bod yn brysur iawn yn ystod Tymor Yr Hydref yn dysgu'r stori Y Feipen Enfawr. Cyd-weithion i dynnu a thynnu a thynnu'r feipen allan o'r ddaear! Cafon ni llawer o hwyl yn actio'r stori, gwneud wynebau doniol allan o lysiau, creu mygydau, tyfu berwr dŵr, gwneud i'r feipen 'POP' , peintio lluniau o'r anifeiliaid creu siapiau ac anifeiliaid yn yr waun wyllt a chreu cwt i'r anifeilaid gyda llifau a phren.

Gwreichion gwych!

Blwyddyn 1

Cofiwch y bumed o Dachwedd! Ni fydd disgyblion Blwyddyn 1 yn anghofio' r diwrnod anghredadwy yma ar frys. Er mwyn ysgogi'r disgyblion rhoddwyd blas iddynt o sut mae rhai pobl yn dathlu noson tân gwyllt. Roedd yna wledd o weithgareddau i'w sbarduno megis creu darlun tân gwyllt gan ddefnyddio paent, sialc a gliter, dylunio ffon wreichion ei hun a llenwi Guto Ffowc gyda deunyddiau amrywiol. Yn ogystal â hyn cafwyd y cyfle i flasu cŵn poeth, siocled poeth a malws melys. I gwblhau'r diwrnod eisteddon i wylio'r tân gwyllt gan atgoffa'n hunain o'r rheolau pwysig.

Diwrnod bythgofiadwy!

Blwyddyn 2

Yn ystod wythnos 'Ein Cymuned', ymgollodd y plant yn llwyr wrth ddarllen llyfr am drysorau Mam-gu. Cafodd Mam-gu a Thad-cu'r disgyblion gwahoddiad i ddod i ymuno a nhw yn y dosbarth. Daeth Mam-gu a Thad-cu'r disgyblion i gael paned o de, ychydig o fisgedi blasus a sgwrs ddifyr gyda'r athrawon. Cafodd y disgyblion ag aelodau o'u teulu lawer o hwyl yn creu breichledi, addurno blychau atgofion (yn union fel yr un o'r llyfr) a chwarae ar yr iPads!

Parchu ein hunain

Year 3

Mwynhaodd Blwyddyn 3 dysgu am sut i edrych ar ôl eu dannedd. Ymchwilion ni mewn i'r effaith niweidiol mae siwgr yn cael ar ein dannedd (plisgyn ŵy yw'r ffordd gorau!) a dysgon nhw'r pwysigrwydd o ddeiat cytbwys a brwsio eu dannedd yn aml.

Fel rhan o'n gynllun gwaith byw'n iach, mwynhaodd y plant dylunio, creu a bwyta eu pitsa iachus!

Parchwch ein Byd!

Blwyddyn 4

Yn ystod y tymor diwethaf, mae blwyddyn 4 wedi bod yn brysyr iawn yn dysgu sut i barchu ein byd. Rydyn ni wedi dysgu am tirluniau gwahanol ac wedi bod o amgylch y byd mewn balwn awyr poeth yn ystod ras falwnau gorau y byd! Yn ogystal a hyn rydyn ni wedi dysgu llawer o ffeithiau diddorol am y Dadear, ac wedi dysgu stori y "Paper bag Prince" Ond, y peth mwyaf pwysig dysgon ni oedd sut y gallwn helpu i achub ein planed trwy ailddefnyddio ac ailgylchu.

Uchafwbynt y tymor oedd mynd ar drip i Wastesavers. Dysgon ni beth sy'n digwydd i'r sbwriel ar ol iddo gadael ein biniau a'r fath o bethau gallwn ei hailgylchu. Ydych chi'n gwybod y gallwch claddu potel gwydr yn y ddaear am miliwn o flynyddoedd ac bydd hi dal yn botel gwydr? Dydy gwydr ddim yn pydru o gwbl! Felly pawb. Cofiwch AILGYLCHU!

Y Victoriaid Ffiaidd

Blwyddyn 5

Rydyn ni ym mlwyddyn 5 wedi bod yn brysur iawn yn dysgu am fywydau didrugareddol pobl yn ystod Yr Oes Victoria. Ydych chi'n meddwl fod rheolau yr ysgol yn llym? Wel, yn ystod yr Oes Victoria roedd plant bach Cymru yn derbyn y gansen os oedden nhw'n siarad yr iaith Gymraeg; druan â nhw! Diolch byth fod O. M Edwards wedi ymdrechu i achub ein hiaith nefolaidd. Cafodd blwyddyn 5 profiadau gwych yn Llangrannog. Dywedodd Erin Thomas "Fe wnes i herio fy hun ar y wal ddringo!". Yn ogystal â hyn, rydyn ni wedi bod ym Mhwll Mawr, Blaenafon Ychwanegodd Olivia Saunders "Teimlais yn ofnus yn nyfnder y pwll glo. Dydw i methu credu fod plant bach fel Susan Rees wedi gweithio yn y tywyllwch am ddeuddeg awr y dydd" Hefyd, rydyn ni wedi creu pamffled diddorol am fywyd yn y wyrcws ofnadwy a thegan i blant. Mae bywyd yn 2016 yn well o lawer!

!

Adeiladau Anhygoel

Blwyddyn 6

Ydych chi'n gwybod sut mae daeargryn yn cael ei greu? Wel yn ystod y tymor rydyn ni ym mlwyddyn 6 wedi bod wrthi yn cymharu mynyddoedd fel Everest, a'r Wyddfa ac dysgu ar trychinebau naturiol mwyaf diweddar o amgylch y byd, sef y daeargryn yn yr Eidal. Fel rhan o'r prosiect roedd rhaid i ni gynllunio adeilad a fyddai'n gallu gwrthsefyll daeargryn. Yr offer oedd ar gael oedd malws melys a deintbigau. I brofi os oedd ein adeilad yn llwyddiannus, roedd rhaid i'r adeilad sefyll yn gadarn ar y jeli am oleua 10 eiliad tra bod y jeli yn cael ei ysgwyd. Cawson ni hwyl a sbri yn dylunio, creu ac yn enwedig wrth brofi. Roedd sawl adeilad yn llwyddiannus iawn, ond roedd eisiau bach mwy o waith ar eraill!! Yr adeiladau gorau oedd y rhai a phatrymau croeslinol i gryfahau'r adeiladau.

Gilwern

Yn ystod mis Hydref fe aeth Blwyddyn 6 i Gilwern. Yno fe ymlacion nhw wrth gerdded trwy'r afon, kayakio a dringo creigiau! Roedden nhw'n wych yn herio'u hunain a helpu'i gilydd!

Llangrannog

Yn ystod y penwythnos 7-9fed o Hydref, fe aeth Blwyddyn 5 (a nifer o athrawon) i wersyll yr Urdd, Llangrannog. Am amser gwych! Fe aethon nhw i ferlota, beicio a nifer o weithgareddau eraill!

Shakespeare i ysgolion

Cafodd disgyblion Bl 5 a 6 cyfle cyffrous iawn i fod yn rhan o brosiect 'Shakespeare For Schools'. Perfformiodd y disgyblion 'Twelfth Night' yng Nghanolfan Celfyddydau Glanllyn ar y 15ed o Dachwedd. Roedd hi'n noson arbennig. Diolch enfawr i'r disgyblion a Miss Davies am berfformiad mor broffesiynol. Roedd hi'n noson i'w chofio ac un fydd y disgyblion yn trysori am byth.

Diolch unwaith eto i'r CRhA am drefnu y Ffair Nadolig a'r gweithgareddau amrywiol yn ystod y tymor. Os oes gan unrhywun ddiddordeb i fod yn aelod o'r CRhA mae yna ffurflenni cofrestri ar gael yn y swyddfa. Cofiwch fod yr holl arian a godwyd yn mynd tuag at addysg eich plant!!

Bydd Tymor y Gwanwyn yn dechrau ar ddydd Mercher 4 ydd o Ionawr 2017. Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb!

Cornel y Campau

O gryfder i gryfder!

Mae'r tîm rygbi wedi dechrau ar garlam y flwyddyn hon. Dydy'r tîm ddim wedi colli gem hyd yn hyn. Llwyddodd y plant i ddod yn 2il yng Nghystadleuaeth Rygbi ysgolion Casnewydd gan ennill 4 gêm a chael un gêm gyfartal .
Ers y gystadleuaeth mae'r plant wedi curo ysgolion Marshfield, Glasllwch a Eveswell.
Hoffwn i rhoi diolch i'r rhieni i gyd sydd yn cefnogi'r plant a diolch arbennig i Mr Huw Jones sydd yn hyfforddi'r bechgyn a'r merched bob dydd Mercher.

Mae cynydd sylweddol wedi bod yn y nifer o blant sydd yn cymryd rhan yn y clybiau ar ôl ysgol. Mae'r ysgol yn cynnig gweithgareddau rygbi, pêl-droed, pêl-rwyd, tenis a gymnasteg i blant sydd ym mlynyddoedd 3, 4, 5 6.

Mae'n galonogol iawn i weld y plant yn datblygu i fewn i unigolion iach ag heini.

Fe wnaeth y plant gymryd rhan mewn campau anabledd yn ystod wythnos 'Ein Cymuned'. Chwaraeodd y plant ystod o gemau arbennig fel Botcha, Pêl-foli gan eistedd, cloch-bêl a rasio mewn cadair olwyn. Pwrpas y gweithgareddau hyn oedd i ddatblygu empathi tuag at bobl ag anableddau a dysgu'r plant sut i addasu gwahanol gampau i gynnwys pobl abl ac anabl.

Os dydy eich plant ddim yn aelodau o'r clybiau chwaraeon ar ôl ysgol, byddwch chi yn cael y cyfle i ymaelodi eto yn y flwyddyn newydd.